

Deall Cofrestru yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DEALT

Gorffennaf 2019

 **Cadw**

Pwy ddylai ddarllen Deall Cofrestru yng Nghymru?



Mae gwrthglawdd anferthol Clawdd Offa, sy'n dyddio o'r wythfed ganrif, yn rhedeg ar hyd rhan helaeth o'r ffin fodern gyfagos rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r rhannau o'r clawdd sydd yn y cyflwr gorau wedi'u gwarchod fel henebion cofrestredig.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Bydd *Deall Cofrestru yng Nghymru* yn helpu unrhyw un sydd am wybod pam a sut y caiff henebion eu cofrestru neu y mae angen iddo wybod hynny. Mae hefyd yn esbonio sut i ofyn am i heneb gael ei chofrestru neu ei dadgofrestru a sut i wneud cais am adolygiad o benderfyniad cofrestru.

Mae *Deall Cofrestru yng Nghymru* hefyd yn rhoi cyflwyniad i berchenogion ac asiantau i'r hyn y mae cofrestru yn ei olygu iddynt.

Cadw, Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256000 cadw@llyw.cymru www.llyw.cymru/cadw

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygrych a ddiogelir yn dda i Gymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 ac eithrio lle y'i nodir WG37563 ISBN digidol 978-1-78903-893-4

Llun y clawr: Siambr Gladdu Neolithig Llwyneliddon, Bro Morgannwg. Mae'r heneb gofrestredig hon yn grair pwysig o'r dirwedd angladdol a defodol cynhanesyddol.
© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Croes Caerw a'r castell gerllaw; dwy heneb warchodedig. Dyma'r groes fu'n ysbrydoliaeth i logo Cadw.

© Hawffraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Wyddech chi?	3	6 Sut i Wneud Cais i Ddadgofrestru Heneb	19
Cyflwyniad	4	7 Cyfrifoldebau Perchenogion	20
1 Beth yw Cofrestru?	5	8 Rheoli Henebion Cofrestredig	21
2 Sut y caiff Safleoedd eu Dewis i'w Cofrestru?	9	9 Grantiau	23
3 Dysgu am Henebion Cofrestredig	15	Rhagor o Wybodaeth	24
4 Sut i Wneud Cais i Gofrestru neu Addasu Ardal Gofrestredig	16	Cysylltiadau	26
5 Sut i Wneud Cais am Adolygiad Annibynnol o Benderfyniad i Gofrestru	18		



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wyddech chi? ➔

- 1 **Safleoedd archaeolegol a ddiogelir ac adfeilion hanesyddol heb eu meddiannu yw henebion cofrestredig. Cânt eu dewis i gynrychioli'r holl weithgareddau dynol o'r cyfnodau cynharaf hyd heddiw.**
- 2 **Mae tua 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru.**
- 3 **Ceir cofnod o bob heneb gofrestrdig ar Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru**
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru
- 4 **Gall unrhyw un ofyn am i heneb gael ei hystyried i'w chofrestru os bydd o'r farn ei bod o ddiddordeb cenedlaethol.**
- 5 **Caiff newidiadau i henebion cofrestredig eu rheoli gan Cadw drwy broses a elwir yn gydsyniad heneb gofrestrdig.**



Cyflwyniad –

Mae henebion cofrestredig yn rhan werthfawr o'n treftadaeth. Maent yn helpu i greu cymeriad unigryw Cymru ac yn cyfrannu at ein hunaniaeth a'n hymdeimlad o le. Maent yn dystiolaeth ffisegol o weithgareddau a bywydau'r bobl a fu'n byw yng Nghymru cyn ein hamser ni, ac a ddylanwadodd ar y wlad yr ydym yn byw ynddi heddiw. Gyda'i gilydd, mae ein henebion cofrestredig yn cynrychioli ac yn hyrwyddo Cymru. Mae gan lawer ohonynt arwyddocâd rhyngwladol sy'n denu ymwelwyr o bedwar ban byd.

Mae cofrestru yn nodi henebion yr ystyrir eu bod o bwys cenedlaethol i Gymru. Golyga hyn eu bod yn bwysig, nid dim ond yn lleol, ond ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol ehangach Cymru. Maent yn amrywio o ogofâu cynhanesyddol a feddiannwyd dros chwarter miliwn o flynyddoedd yn ôl, i strwythurau diwydiannol

a milwrol a adeiladwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae henebion cofrestredig yn cynrychioli pob agwedd ar fywydau ein cyndeidiau, yn amrywio o weithgareddau arbennig i weithgareddau bob dydd. O leoedd i fyw, gweithio a chwarae ynddynt, i fannau addoli a gwrthdaro, mae'r henebion hyn, sydd o bwys cenedlaethol, yn cynnig cysylltiad ag uchelgeisiau a sgiliau cenedlaethau'r gorffennol. Mae'r broses gofrestru yn ein helpu i nodi pob un o nodweddion arbennig yr adeiladau hyn a'u gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan berchenogion a meddianwyr presennol henebion cofrestredig ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o reoli ein treftadaeth. Drwy eu gofal a'u hymrwymiad i ddiogelu'r asedau gwerthfawr hyn, byddwn oll yn gallu mwynhau'r adeiladau hyn sydd o bwys cenedlaethol nawr ac yn y dyfodol.



Gyndd cofrestredig o'r Ail Ryfel Byd, a arferai amddiffyn traeth Llanismel, Sir Gâr.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

I. Beth yw Cofrestru? ⇐

Cofrestru yw'r ffordd y caiff henebion neu safleoedd archaeolegol o bwys cenedlaethol eu cydnabod o dan y gyfraith drwy Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.

Dyma ein ffurf hynaf o warchod treftadaeth. Dechreuodd y drefn ym 1913, ond mae ei gwreiddiau'n dyddio'n ôl i 1882 pan ddaeth mesurau i ddiogelu rhai henebion hynafol yn gyfraith gwlad am y tro cyntaf. Dyma pryd y cafodd y term 'cofrestru' ei defnyddio gyntaf i ddisgrifio rhestr o safleoedd cynhanesyddol yn bennaf a oedd yn haeddu cael eu diogelu gan y Wladwriaeth.

Er mai Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio'r gofrestr, yn ymarferol, ni — Cadw — sy'n argymhell pa henebion y dylid eu cofrestru.

Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei chwmpas. Yn ogystal â chestyll, abatai a safleoedd claddu cynhanesyddol adnabyddus, mae hefyd yn cwmpasu safleoedd llai cyfarwydd fel odyrau calch, hen aneddiadau canoloesol anghyfannedd ac olion y diwydiannau haearn, glo a llechi yng Nghymru. Gall rhai henebion gofrestredig gynnwys adeiladau sy'n dal i sefyll neu adfeilion ac mae eraill nad oes unrhyw olion ohonynt i'w gweld ar wyneb y ddaear, ond mae eu harchaeoleg gladdedig o bwys cenedlaethol. Gall safleoedd tanddwr gael eu cofrestru hefyd, megis safleoedd aneddiadau ar ochr llynnoedd sydd wedi mynd dan y dŵr neu longddrylliadau hanesyddol. Mewn gwirionedd, gall henebion ac olion archaeolegol o bob ffurf ac oed gael eu cofrestru,




Siambwr gladdu Pentre Ifan oedd un o'r safleoedd cyntaf i'w warchod yng Nghymru, pan gafodd ei gynnwys yn Neddf Diogelu Henebion 1882.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

ar yr amod nad oes neb yn byw ynddynt neu nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig. Golyga hyn fod y rhan fwyaf o henebion gofrestredig yn safleoedd archaeolegol neu'n adfeilion hanesyddol.

Nod cofrestru yw diogelu'r dystiolaeth archaeolegol sy'n goroesi mewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys adeiledd ffisegol yr heneb ac unrhyw arteffactau a thystiolaeth amgylcheddol gysylltiedig, megis pail neu hadau. Mae hyn yn golygu, pe bydddech yn dymuno gwneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, y byddai angen i chi yn ôl pob tebyg wneud cais i ni am ganiatâd, a elwir yn ganiatâd heneb gofrestredig. Bwriedir i'r broses caniatâd heneb gofrestredig ddiogelu'r heneb, ei lleoliad a'i nodweddion rhag gwaith anghydnaws a allai niweidio ei phwysigrwydd cenedlaethol.



Cafodd y cofnod hwn o Bentre Ifan ei lunio gan arolygydd cyntaf yr henebion, y Cadfridog Pitt Rivers, a'i gynorthwydd, William Tomkin, wrth ymweld â'r safle ym 1884.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Mae llawer o henebion a safleoedd archaeolegol yn bwysig i'w cymunedau lleol, ond er mwyn iddynt gael eu cofrestru, rhaid iddynt fod o bwys cenedlaethol. Esbonnir y meini prawf ar gyfer diffinio pwysigrwydd cenedlaethol yn adran 2. Rydym yn parhau i



ychwanegu henebion at y gofrestr, ac weithiau yn eu tynnu oddi ami.

Dengys y detholiad canlynol o safleoedd sut y gall henebion cofrestredig amrywio'n eang o ran math a dyddiad.

Ogof Pen-y-fai, Abertawe. Mae'r safle hwn yn cynnwys celciau archaeolegol pwysig sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod Uwch-balaeolithig. Daeth man claddu 'Menyw Goch Pen-y-fai (Pafiland)' i'r fei yn ystod gwaith cloddio ym 1822 a 1823, ond ers hynny, gwyddom mai sgerbwd dyn 33,000 o flynyddoedd oed ydyw mewn gwirionedd. Cafodd ei gladdu ar lawr yr ogof, wedi'i beintio ag ocr coch a'i amgylchynu gan nwyddau claddu. Mae'r safle o bwys cenedlaethol hwn yn cynnwys peth o'r dystiolaeth gynharaf o bobl ym Mhrydain, ac mae'n bosib ei fod yn cynnwys rhagor o nodweddion a chelciau archaeolegol bwysig.

O gasgliad Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru © Paul R. Davis



Maen Ceti, Abertawe. Dyma feddrod siambr Neolithig unigryw, ac fel sawl safle cynhanesyddol, mae ei ffurf a'i darddiad yn llawn chwedloniaeth. Mewn gwirionedd, mae'n ymddangos fel bod dwy siambr ar wahân wedi'u creu o dan y maen capan anferthol trwy osod cerrig unionsyth — gyda naw yn dal i sefyll. Mae'n heneb o bwys cenedlaethol am ei photensial i wella'n gwybodaeth o arferion claddu a defodau cynhanesyddol gan fod cryn bosibilrwydd o dystiolaeth o greiriau angladdol neu ddefodol a thystiolaeth amgylcheddol a strwythurol mewn un darn, gan gynnwys arwyneb tir cynhanes wedi'i gladdu.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Ynys Skomer, Sir Benfro. Mae'r rhan fwyaf o'r ynys yn rhestredig gan fod ei chyfundrefnau caeau cynhanes wedi para'n syndod o dda, gan gynnwys ffiniau caeau, glasleiniau, clwstwr cytiau, twmpathau llosg a charneddau. Gan fod yr olion archaeolegol mewn cyflwr cystal, mae'r dystiolaeth o gronoleg a hirhoedledd yr ynys, ynghyd â throï cefn ar y safle fel anheddiad maes o law, yn debygol o oroesi hefyd.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Castell Harlech, Gwynedd. Mae'r castell hwn, a godwyd ar gyfer Edward I ym 1283, wedi'i gofrestru fel enghraifft ragorol o bensaerniaeth filwrol ganoloesol. Mae hefyd yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd. Mae Castell Harlech yn heneb eiconig yma yng Nghymru, ac yn gyfarwydd i lawer fel safle o bwys cenedlaethol. Cadw sy'n gyfrifol amdano, ar ran Llywodraeth Cymru.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Abaty Glyn-y-groes, Sir Ddinbych. Cafodd y tŷ Sistersaidd hwn ei sefydlu ym 1201 a'i gau ym 1537. Mae'n cynnwys eglwys ac adeiladau domestig cysylltiedig; credir mai pwll pysgod mynachaid oedd y pwll yn y blaendir. Mae'n heneb o bwys cenedlaethol oherwydd ei botensial i gyfoethogi'n gwybodaeth am gyfundrefn ac arferion Cristnogaeth ganoloesol. Mae'r safle'n elfen bwysig o'r dirwedd ganoloesol ehangach ac yn cadw cryn botensial archaeolegol, gyda thebygolrwydd cryf o bresenoldeb nodweddion a chelciau archaeolegol. Cadw sy'n gyfrifol amdano, ar ran Llywodraeth Cymru.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Cored Bysgod Ogwen, Gwynedd. Gall henebion o dan y môr ac mewn ardaloedd rhynglanw gael eu cofrestru yn ogystal â rhai ar dir. Cafodd y gored bysgod fawr, ysblennydd hon, sydd mewn cyflwr hynod o dda, ei dyddio trwy broses flwyddgylchau i 1556. Mae cored bysgod yn cynnwys ffens neu res o stanciau neu bolion, gyda rhwydi'n sownd wrthynt yn aml i greu lloc mewn afon neu harbwr, er mwyn dal pysgod. Mae'n safle o bwys cenedlaethol, oherwydd ei botensial i gyfoethogi ein gwybodaeth am arferion pysgota morol canoloesol neu ôl-ganoloesol.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Gwaith Haearn Clydach, Sir Fynwy. Wedi'i sefydlu rhwng 1793 a 1795, roedd y safle hwn yn cynnwys pedair ffwrnais chwyth, tai llenwi a thodd-dŷ. Roedd modd defnyddio'r inclein rheilffordd gwrthbwys i godi'r haearn crai i'r melinau rholio ar dir uwch i'r dwyrain o'r gwaith haearn. Gallai'r gweithfeydd wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o ddatblygiad y diwydiant haearn yn ne Cymru, yn enwedig gan ei fod yn rhan o dirwedd ddiwydiannol llawer ehangach.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Castell Caergwrle, Sir y Fflint. Sefydlwyd Caergwrle gan y Tywysog Dafydd ap Gruffudd tua 1278, sy'n golygu mai dyma'r castell olaf i'w adeiladu gan y tywysogion Cymreig. Wedi blynyddoedd o ddwyn ac ysbeilio cerrig, mae diogelu'r safle unigryw hwn yn bwysig nid yn unig o safbwynt ein hunaniaeth fel cenedl ond hefyd oherwydd ei botensial i wella ein gwybodaeth am arferion amddiffyn canoloesol.

O gasgliad Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru © Paul R. Davis



Pont Crucywel, Powys. Adeiladwyd y bont ym 1706 er mwyn cario'r ffordd gerbydau un lôn dros afon Wysg. Cafodd ei lledu ym 1810 pan unwyd dau o'r bwâu yn y rhan ogledd-ddwyreiniol, gan arwain at 12 o fwâu ar y pen gogleddol i fyny'r afon, a 13 o fwâu ar yr ochr ddeheuol i lawr yr afon. Mae'r bont yn bwysig oherwydd gallai ein helpu i ddeall systemau cludo a thechnegau adeiladu ôl-ganoloesol yn well.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

2. Sut y caiff Safleoedd eu Dewis i'w Cofrestru? –

Rydym yn asesu pob heneb yn ôl ei theilyngdod ei hun. Rydym yn ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu p'un a yw heneb neu safle archaeolegol o bwys cenedlaethol ac yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer cofrestru.

Mae cofrestru'n cydnabod mai, yn aml, henebion hynafol a safleoedd archaeolegol yw ein hunig ffynhonnell o wybodaeth am y cyfnod pan oeddent yn cael eu defnyddio. Mae rhai mathau o henebion yn brin iawn, mae eraill yn fwy cyffredin ac yn amrywio o ran eu ffurf a'u golwg. Mae'r meini prawf a ddefnyddiwn i ddewis henebion i'w gwarchod yn cydnabod yr amrywiaeth hon ac yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer dewis pa safleoedd y byddwn yn eu defnyddio yn y dyfodol.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Mae Yr Amgylchedd Hanesyddol yn nodi'r meini prawf ar gyfer cofrestru. www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

Y prif ystyriaethau yw:

Cyfnod

Dylai pob math o heneb sy'n nodweddu categori neu gyfnod gael ei hystyried ar gyfer diogelu.

Nid oes unrhyw derfynau o ran oed y safleoedd a gaiff eu dewis i'w cofrestru. Gall hyd yn oed strwythurau cymharol ddiweddar fod yn gymwys os ydynt yn cynrychioli eu cyfnod neu eu gweithgaredd mewn ffordd foddhaol.

Prinder

Mae rhai categorïau o henebion sydd mor brin mewn rhai cyfnodau fel y dylai'r holl enghreifftiau sydd wedi goroesi ac sydd â rhywfaint o botensial archaeolegol o hyd gael eu diogelu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, dylid dewis detholiad sy'n portreadu'r nodweddiadol a'r cyffredin yn ogystal â'r prin. Dylai'r broses hon ystyried holl agweddau dosbarthiad dosbarth arbennig o heneb, o ran cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae rhai henebion mor brin fel y byddant yn cael eu cofrestru am eu bod o bwys cenedlaethol. Caiff henebion mwy cyffredin eu cofrestru drwy broses ddethol, a hynny fel arfer yn seiliedig ar eu cyflwr a'u potensial archaeolegol, i gynrychioli ystod ac amrywiaeth.

Dogfennaeth

Gall arwyddocâd heneb gael ei ategu gan fodolaeth cofnodion ymchwiliadau blaenorol neu, yn achos henebion diweddarach, gan dystiolaeth ategol o gofnodion ysgrifenedig cyfoes.

Os yw henebion wedi'u disgrifio mewn dogfennau hanesyddol neu os oes ymchwiliadau cynharach iddynt yn bodoli, gall hyn ein helpu i'w deall yn well a llywio ein dewisiadau o ran cofrestru.

Gwerth grŵp

Gall gwerth heneb unigol (megis cyfundrefn caeau) gael ei hategu'n fawr gan ei pherthynas â henebion cyfoes perthnasol (megis anheddiad a mynwent) neu â henebion o wahanol gyfnodau. Mewn rhai achosion, mae'n well gwarchod y grŵp cyfan o henebion, gan gynnwys tir cysylltiol a chyfagos, yn hytrach na gwarchod henebion unigol o fewn y grŵp.

Prin y gwelir bod henebion unigol wedi'u hadeiladu ar eu pen eu hunain heb unrhyw berthynas â strwythurau eraill o'r un cyfnod. Yn yr achosion hyn, rydym yn diogelu'r grŵp yn ei gyfanrwydd yn hytrach na chofrestru henebion unigol o fewn y grŵp.

Goroesiad/Cyflwr

Mae goroesiad potensial archaeolegol heneb ar ac o dan y ddaear yn ystyriaeth arbennig o bwysig a dylai gael ei hasesu mewn perthynas â'i chyflwr presennol a'r nodweddion sydd wedi goroesi.

Mae gan y rhan fwyaf o'r henebion a gaiff eu dewis i'w cofrestru botensial archaeolegol, a hynny ar wyneb y ddaear ac oddi tani. Gallai hyn gynnwys waliau cerrig sy'n sefyll, tyllau pyst claddedig neu rwbwl o strwythurau sydd wedi dymchwel, ynghyd ag arteffactau a dyddodion archaeolegol yn yr heneb ac o'i chwmpas.

Cyflwr bregus

Gall tystiolaeth archaeolegol o bwys mawr o rai henebion maes gael ei dinistrio gan un cyfnod o aredig neu driniaeth anystyriol. Byddai henebion o'r math hwn sydd dan fygythiad yn elwa'n arbennig ar y diogelwch statudol y mae cofrestru yn ei roi. Ceir strwythurau sy'n sefyll hefyd o ffurf neu gymhlethdod arbennig y gall eu gwerth gael ei leihau'n sylweddol drwy esgeulustod neu driniaeth ddiofal ac a fyddai'r un mor addas i gael diogelwch heneb gofrestredig hyd yn oed

os yw'r strwythurau hyn eisoes yn adeiladau hanesyddol rhestredig.

Gall cofrestru ddiogelu henebion ag olion claddedig yn agos at wyneb y ddaear y gellir eu difrodi'n hawdd iawn, er enghraifft drwy aredig. Gall cofrestru hefyd ddiogelu potensial archaeolegol rhai strwythurau sy'n sefyll a allai gael eu difrodi'n hawdd iawn drwy gael eu hesgeuluso neu eu trin yn ddiofal.

Amrywiaeth

Gellir dewis rhai henebion ar gyfer eu cofrestru am eu bod yn cynnwys cyfuniad o nodweddion safonol; rhai eraill oherwydd un nodwedd bwysig.

Potensial

Weithiau, ni ellir nodi natur y dystiolaeth yn fanwl, ond gall fod yn bosibl dogfennu rhesymau yn rhagweld ei bodolaeth a'i phwysigrwydd ac felly ddangos y cyfiawnhad dros gofrestru. Mae hyn fel arfer wedi ei gyfyngu i safleoedd yn hytrach na henebion sy'n sefyll.

Mae'r rhan fwyaf o safleoedd archaeolegol yn cynnwys tystiolaeth o dan y ddaear na allwn ei deall yn llawn heb gynnal gwaith cloddio, ond mae hon yn broses ddinistriol sy'n arwain at golli'r cofnod sylfaenol.

Gall technegau fel arolygon geoffisegol helpu i ddiffinio natur a graddau olion archaeolegol sydd wedi goroesi, ond ni fyddant yn amlygu pob manylyn o'r safle, yn enwedig os yw'r olion wedi'u claddu'n ddwfn o dan y ddaear.

Drwy dynnu ar ein profiad o waith cloddio neu ddatgelu mewn safleoedd tebyg eraill, gallwn asesu

potensial archaeolegol a ph'un a ddylem gofrestru safleoedd ai peidio. Yn yr achosion hyn, mae cofrestru yn diogelu'r prif olion archaeolegol rhag aflonyddwch a cholled damweiniol.

Mae'r broses gofrestru yn ddisgresiynol. Golyga hyn ein bod hefyd yn ystyried diben a goblygiadau cofrestru wrth wneud penderfyniad. Weithiau, mae'n bosibl na fydd yn briodol cofrestru, hyd yn oed os bydd safle'n bodloni'r meini prawf. Er enghraifft, os yw safle arfordirol yn cael ei erydu'n gyflym gan y môr a'i bod yn debygol y bydd yn cael ei golli yn y dyfodol agos, mae'n bosibl nad cofrestru yw'r dull gorau o weithredu am na fydd yn gwarchod y safle. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl mai cloddiaid llawn fyddai'r unig ffordd o gofnodi pwysigrwydd yr ased hanesyddol.

Gall rhestru lleol hefyd fod yn ffordd effeithiol o warchod henebion a safleoedd archaeolegol o bwys nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cenedlaethol ar gyfer cofrestru ond sy'n chwarae rôl hollbwysig i gynnal cymeriad lleol ac ymdeimlad o le. Gall awdurdodau cynllunio lleol lunio rhestrau o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a llunio polisiau i'w diogelu a'u gwella.

Am ragor o wybodaeth am restru lleol, gweler *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*. www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/asedau-hanesyddol-eraill/asedau-hanesyddol-o-ddiddordeb-leol

Cyfnod. Amddiffynfeydd Gwrthoresgyniad, Fairbourne, Gwynedd. Mae tua 650 o flociau gwrth-danciau yn dal i sefyll mewn un llinell hir, bron yn ddiderfyn, am ryw 2.3km gyda chaerau tanddaearol bob hyn a hyn. Roedd yr amddiffynfeydd gwrthoresgyniad hyn, sy'n dyddio'n ôl i ddyddiau cynnar yr Ail Ryfel Byd, yn rhan o amddiffynfeydd arfordirol y Western Command, gyda'r bwriad o amddiffyn y wlad rhag y posibilrwydd o ymosodiad gan yr Almaenwyr o gyfeiriad Iwerddon. Er eu bod yn llai na chant oed, maen nhw'n atgof ffisegol pwysig o'r rhyfel ar y ffyrnt cartref.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru





Prinder. Rhes o feini hirion Saith Maen, Powys. Dyma olygfa anghyfarwydd iawn yng Nghymru — saith maen, llawer ohonynt yn dal i sefyll yn dalog, yn edrych dros Gwm Tawe — ac mae'n bosib bod rhagor o allgreigiau gerllaw. Mae'n grair pwysig o'r dirwedd angladdol a defodol cynhanesyddol ac yn cynnwys potensial archaeolegol pwysig.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Prinder. Twyni Sych, Hundleton, Sir Benfro. Grŵp o wyth o domenni claddu crwn neu 'grugiau' o'r Oes Efydd. Mae pob crug yn cynrychioli gorffwysfan un neu fwy o bobl. Byddwn yn ystyried cyflwr a photensial archaeolegol y safleoedd fel crugiau crwn wrth ddewis safleoedd i'w cofrestru.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Dogfennaeth. Castell Maenorbŷr, Sir Benfro. Mae'r castell hwn mewn cyflwr arbennig o dda ac yn grair pwysig yn y dirwedd ganoloesol. Fe'i cofnodwyd am y tro cyntaf ym 1147 ac mae'n enwog fel man geni Giralddus Cambrensis (Gerald Gymro) a ysgrifennodd am ei deithiau ledled Cymru ym 1188.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



Gwerth Grŵp. Gwaith Brics Porth Wen, Ynys Môn. Mae'r safle hwn yn enghraifft wych o waith brics gwledig ar arfordir ysbennnydd. Mae'n heneb hollbwysig gan fod gweddillion proses gyflawn o gynhyrchu brics yn dal yn amlwg ar y tir.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Gwerth Grŵp. Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas. Adeiladwyd rhwng 1795 a 1808, a bellach yn Safle Treftadaeth y Byd, mae'r ddyfrbont enwog a'r gamlas a'i gwasanaethodd yn henebion cofrestredig. Oherwydd ei chynllun beiddgar, gosgeiddig, mae Dyfrbont Pontcysyllte yn cael ei hystyried yn gampwaith o beirianeg y dyfrffyrdd a dorrodd dir newydd mewn adeiladwaith haearn. Mae darnau o'r gamlas gerllaw yn enghraifft o'r dulliau peirianeg newydd a ddatblygwyd yng ngwledydd Prydain, a fabwysiadwyd wedyn gan weddill y byd wrth i'r gwledydd fynd ati i adeiladu eu dyfrffyrdd, eu rheilffyrdd a'u ffyrdd eu hunain. Mae gwarchod y system gamlesi'n golygu y gallwn ei deall a'i dehongli fel amgylchedd gwaith llawn yn hytrach na strwythurau ar eu pen eu hunain.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Goroesiad/Cyflwr. Eglwys Santes Canna, Llan-gan, Sir Gâr. Mae llawer o safleoedd archaeolegol wedi'u claddu o dan y ddaear. Yn yr awyrlun hwn, mae tywydd sych yn datgelu 'ôl cnwd' o loc ffosog fawr yn y cae i'r dde o Eglwys Santes Canna — sy'n debygol o fod yn perthyn i'r cyfnod cynhanesyddol diweddar ac wedi dylanwadu ar leoliad yr eglwys o bosib. Mae'r ôl cnwd yn dangos fod y ffos yn dal i fodoli, sydd â photensial archaeolegol sylweddol.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Cyflwr bregus. Bryn Cader Fanner, Gwynedd. Mae'r garnedd unigryw, anghyffredin hon yn cynnwys cylch o gerrig unionsyth sy'n codi ar ongl o'r garnedd. Mae rhai ohonynt ar goll erbyn hyn, eraill yn sefyll ar fwy o ongl na'r bwriad gwreiddiol; a chredir mai ychwanegiad diweddar yw un arall. Dengys cofnodion fod aelodau'r fyddin wedi difrodi'r safle yn ystod ymarferiad ym 1939.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru




Amrywiaeth. Tomen y Mur, Gwynedd. Mae'r safle trawiadol hwn yn cynnwys ardal restredig fawr mewn dwy ran sy'n cynnwys tua deg safle. Mae'r prif safleoedd yn rhan o gaer Rufeinig siâp cardiau chwarae, gyda'i anheddiad amgylchynol — y *vicus* — a'r maes parêd ac amffitheatr Rufeinig. O fewn y gaer wedyn, ceir tomen neu fwnt Normanaidd ac olion beili posibl. Mae'n grair pwysig o'r dirwedd Rufeinig ac yn cynnwys potensial archaeolegol sylweddol.

© gasgliad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru © Paul R. Davis



Amrywiaeth. Maen Corbalengus, Ceredigion. Mae'r garreg arysgrifedig bwysig hon o'r cyfnod canoloesol cynnar wedi'i chofrestru oherwydd un nodwedd bwysig — sef coffâu Corbalengus fel un o'r Ordofigiaid, un o'r llwythi a drigai yng Nghymru cyn dyfodiad y Rhufeiniaid gannoedd o flynyddoedd ynghynt. Mae hwn o ddiddordeb penodol gan ei fod yn dangos bod rhaniadau llwythi cyn-Rufeinig a Rhufeinig wedi goroesi i'r cyfnod is-Rufeinig.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Potensial. Tref Rufeinig Caer-went, Sir Fynwy. Caer-went — *Venta Silurum* — oedd yr anheddiad Rhufeinig pwysicaf yn ne-ddwyrain Cymru. Mae muriau'r hen dref ymhlith yr enghreifftiau gorau o waith maen Rhufeinig ym Mhrydain. Mae dros hanner yr ardal o fewn y waliau wedi'u cloddio ers 1899, sy'n golygu ein bod bellach yn gwybod llawer am gynllun y dref, fel y gwelir yn y cynllun. Fodd bynnag, nid yw rhannau helaeth o'r pedrannau gogledd-orllewinol a de-ddwyrainol wedi eu cloddio o hyd, ac wedi cadw llawer o'u potensial archaeolegol sy'n bwysig er mwyn eu cofrestru a'u gwarchod i genedlaethau'r dyfodol.

O gasgliad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru © Paul R. Davis



3. Dysgu am Henebion Cofrestredig –

Rhown gofnod i bob heneb gofrestredig yn y gofrestr swyddogol. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad a chynllun o'r lleoliad sy'n nodi cwrdd yr ardal gofrestredig. Cyhoeddir y cofnodion hyn ar Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru ar wefan Cadw www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

Mae'r cofnod ar y gofrestr yn rhoi trosolwg o'r heneb: beth ydyw a pham mae'n bwysig.

Er y bydd cofnod ar y gofrestr yn cyfeirio at elfennau neu nodweddion yr heneb a arweiniodd at ei chofrestru, mae'n bosibl na fydd yn gofnod cyflawn o'r holl nodweddion pwysig. Gall faint o wybodaeth sydd mewn cofnod amrywio.

Mae'n bosibl y gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hanes eich heneb gofrestredig yn eich cofnod amgylchedd hanesyddol lleol, a gynhelir gan un o'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru, ac yn y Gofrestr o Henebion Cenedlaethol a gynhelir gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Gallwch hefyd gysylltu â thîm arolygwyr henebion a wardeiniaid henebion maes Cadw er mwyn cael atebion i'ch cwestiynau a chyngor ar reoli eich heneb gofrestredig. cadw@llyw.cymru

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o lyfyrnau canllaw sy'n cynnwys gwybodaeth am y gwahanol fathau o henebion a'r cyfnodau y maent yn perthyn iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys *Gofalu am Henebion Angladdol a Defodol Cynhanesyddol*, *Gofalu am Fryngaerau a Ffermdai* a *Gofalu am Ffermydd Coll*. www.cadw.llyw.cymru/cy-advice-support/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/canllawiau-arfer-gorau#section-gofalu-am-dreftadeath-yr-arfordir

Weithiau, bydd heneb wedi'i rhestru yn ogystal â'i chofrestru. Pan fydd hyn yn digwydd, mae deddfwriaeth ynglŷn â henebion gofrestredig yn cael blaenoriaeth. Am ragor o wybodaeth am adeiladau rhestredig, gweler:

Deall Rhestru yng Nghymru
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/deall-rhestru#section-cyflwyniad

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru
www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/rheoli-newid-i-adeiladau-rhestredig

Mae sawl ffordd wahanol o ddysgu am henebion gofrestredig. Yma, mae criw yn dysgu mwy am *Gastell Deganwy, Conwy*, trwy archwilio'r olion tir.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru



4. Sut i Wneud Cais i Gofrestru neu Addasu Ardal Gofrestredig –

Mae tua 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru. Gallwn ychwanegu mwy o henebion i'r gofrestr a gallwn hefyd ychwanegu at ardal gofrestredig neu ei lleihau er mwyn adlewyrchu cwrpas yr heneb yn fwy cywir.

Cawn geisiadau gan:

- berchenogion ac aelodau o'r cyhoedd
- sefydliadau megis Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru
- awdurdodau lleol
- ac o ganlyniad i brosiectau ymchwil a gomisiynwyd.

Gallwch wneud ceisiadau i ni gofrestru henebion unigol neu safleoedd archaeolegol, neu i ymestyn neu leihau ardal gofrestredig.

Cyn cyflwyno eich cais, mae'n syniad da edrych i weld a yw'r heneb eisoes wedi'i chofrestru a maint yr ardal gofrestredig. Gallwch wneud hyn ar Cof Cymru — Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

Mae hefyd yn werth siarad â ni cyn cyflwyno cais ffurfiol.

Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno tystiolaeth i ddangos pwysigrwydd cenedlaethol yr heneb.



Gweddillion arbennig melin lechi Ynyspandy, a godwyd rhwng 1855 a 1857 fel rhan o chwarel Gorseddau. Mae'r felin wedi'i chofrestru fel safle o bwys cenedlaethol oherwydd ei photensial i wella ein gwybodaeth am y diwydiant llechi.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Mae hefyd yn bwysig dweud wrthym os oes rhesymau pam y dylem flaenoriaethu eich cais; er enghraifft, a oes unrhyw risgiau hysbys i'r safle?

Dylech anfon eich ceisiadau atom yn cadw@llyw.cymru a chynnwys y canlynol:

- enw, cyfeiriad/lleoliad yr heneb neu'r safle archaeolegol, gyda chod post neu gyfeirnod map
- manylion cyswllt y perchennog/deiliad, os yw'n hysbys
- ffotograffau diweddar yn dangos golwg a nodweddion arbennig presennol yr heneb
- gwybodaeth am hanes yr heneb — megis y dyddiad adeiladu, defnydd gwreiddiol a datblygiad hanesyddol. Os yw'n bosibl, dylech gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig neu ffotograffig i ategu eich cais a rhoi gwybod i ni pa ffynonellau rydych wedi'u defnyddio i ddysgu mwy am yr heneb
- rhesymau pam rydych yn credu y gallai'r heneb fodloni'r meini prawf ar gyfer cofrestru.

Byddwn yn asesu'r wybodaeth i weld p'un a yw'r heneb yn bodloni'r meini prawf cenedlaethol ar gyfer cofrestru (gweler adran 2). Gallai hyn gynnwys cyfeirio at amrywiaeth eang o ffynonellau ac ymweliad â'r safle. Yn dibynnu ar y math o gais, gall y cam hwn gymryd nifer o wythnosau, ac weithiau misoedd, i'w gwblhau.

Os byddwn yn argymhell bod yr heneb yn cael ei chofrestru, neu fod yr ardal gofrestredig yn cael ei haddasu, byddwn yn ymgynghori â'r canlynol:

- perchennog a meddiannydd yr heneb
- yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol
- unrhyw berson arall y credwn fod ganddo wybodaeth arbennig am yr heneb, neu henebion o ddiddordeb hanesyddol neu archaeolegol arbennig, neu ddiddordeb ynddynt.

Byddwn yn rhoi 28 diwrnod i ddychwelyd ymatebion ysgrifenedig. Byddwn yn dweud wrth y perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol p'un a ydym wedi penderfynu cofrestru'r heneb neu addasu'r ardal gofrestredig ai peidio.

Gwarchodaeth interim

O ddechrau'r cyfnod ymgynghori, rhoddir gwarchodaeth interim i'r heneb fel petai wedi'i chofrestru eisoes. Bydd yn drosedd ei difrodi neu wneud gwaith sy'n newid ei chymeriad heb gydsyniad heneb gofrestredig.

Bydd gwarchodaeth interim yn parhau nes i benderfyniad gael ei wneud a nes i ni ddweud wrth y perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol. Rydym yn cyhoeddi rhestr o henebion o dan warchodaeth interim ar ein gwefan www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/hysbysiadau-statudol-ymgynghori-heneb#section-hysbysiadau-ymgynghori

Os nad yw'r heneb wedi'i chofrestru, efallai y bydd iawndal am golled neu ddifrod a achoswyd gan y warchodaeth interim yn daladwy. Mae'n rhaid cyflwyno hawliadau ysgrifenedig am iawndal o fewn chwe mis i'r dyddiad y daeth y warchodaeth interim i ben.



Olion helaeth y Bwlwarcau — bryngaer gofrestredig o'r Oes Haearn gydag olion o ddefnydd diweddar. Mae'n safle o bwys cenedlaethol oherwydd ei botensial i wella'n gwybodaeth am amddiffynfeydd cynhanesyddol diweddar.

© Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

5. Sut i Wneud Cais am Adolygiad Annibynnol o Benderfyniad i Gofrestru –

Gallwch wneud cais i'r Arolygiaeth Gynllunio adolygu'r penderfyniad cofrestru o fewn 12 wythnos i'r penderfyniad hwnnw ar y sail nad yw'r heneb o bwys cenedlaethol neu nad oes cyfiawnhad dros ychwanegu at yr ardal gofrestredig. Bydd angen i chi gynnwys manylion llawn yr achos. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cysylltu ag unrhyw bartïon â diddordeb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad gwreiddiol ac unrhyw

bobl briodol eraill er mwyn iddynt allu cyfrannu at yr adolygiad. Gall hyn fod ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gwrandawriad neu ymchwiliad lleol cyhoeddus.

Ar ôl i'r Arolygiaeth Gynllunio wneud penderfyniad, bydd yn hysbysu'r cyfranogwyr am ei chanfyddiadau ac efallai y bydd angen i ni ddiwygio'r gofrestr yn dibynnu ar benderfyniad yr adolygiad.



Mae caer atodol Rufeinig Segontium yn dyddio'n ôl i'r flwyddyn 77 OC, a pharhaodd ar waith hyd 394 OC. Cafodd ei chynllunio ar ffurf caer nodweddiadol Rufeinig, siâp cerdyn chwarae, gydag amddiffynfeydd clawdd a phren a threfniant milwrol safonol o adeiladau fframwaith coed gan gynnwys barics, tŷ'r swyddog a graneri.

© Hawlfraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

6. Sut i Wneud Cais i Ddadgofrestru Heneb –

Os byddwch o'r fam y dylid ailystyried cofrestriad, dylech anfon y dystiolaeth atom, ynghyd â ffotograffau o'r heneb a chynllun o'r lleoliad. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth ymwneud â phwysigrwydd cenedlaethol yr heneb.

Byddwn yn ymchwilio i'ch dystiolaeth ac efallai y bydd angen i ni ymweld â'r heneb cyn i ni wneud penderfyniad cychwynnol. Os byddwn yn argymhell dadgofrestru, byddwn yn ymgynghori â'r canlynol:

- perchennog a meddiannydd yr heneb
- yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol
- unrhyw berson arall y credwn fod ganddo wybodaeth arbennig am yr heneb, neu henebion o ddiddordeb hanesyddol neu archaeolegol arbennig, neu ddiddordeb ynddynt.

Byddwn yn rhoi 28 diwrnod i ddychwelyd ymatebion ysgrifenedig. Byddwn yn dweud wrth y perchennog, y meddiannydd a'r awdurdod cynllunio lleol p'un a ydym wedi penderfynu dadgofrestru ai peidio.



Mae bryngaer Dinas Dinlle wedi'i hamddiffyn gan ddau glawdd sydd bellach yn amgylchynu tair ochr o'r gaer. Er ei bod yn heneb gofrestredig, prin allwn ni wneud unrhyw beth i warchod yr heneb hon o'r Oes Haearn gan fod y darn sy'n wynebu'r môr yn erydu'n raddol. Dros amser, mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o'r gaer yn diflannu am byth, ac mai cloddio fydd yr unig ffordd o adfer ei thystiolaeth archaeolegol.

© Hawlfraint: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

7. Cyfrifoldebau Perchenogion –

Fel perchennog unrhyw ased, perchennogion henebion cofrestredig sy'n gyfrifol am ofalu am eu heiddo. Mae cadw heneb gofrestredig mewn cyflwr da yn helpu i sicrhau y bydd yn goroesi yn yr hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd angen i chi gael cydsyniad heneb gofrestredig gennym ni ar gyfer y rhan fwyaf o'r gwaith sy'n newid y safle'n ffisegol, gan gynnwys atgyweiriadau (gweler adran 8). Cyn cynllunio unrhyw waith, mae'n syniad da deall beth sy'n gwneud eich heneb gofrestredig yn arbennig er mwyn i unrhyw waith allu ystyried hynny.

Mae Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru
www.cadw.llyw.cymru/cy-advice-support/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/

[canllawiau-arfer-gorau#section-rheoli-henebion-cofrestredig-yng-nghymru](#) yn esbonio sut i ddeall arwyddocâd heneb gofrestredig a'r ffordd orau o ofalu amdani.

Rhestrir rhai ffynonellau defnyddiol o wybodaeth bellach ar ddiwedd y canllaw hwn. Gallwch hefyd gysylltu â'n tîm arolygwyr henebion a wardeiniaid henebion maes a fydd yn ateb eich cwestiynau ac yn rhoi cyngor ar y ffordd orau o reoli eich heneb gofrestredig. cadw@llyw.cymru

Rydym hefyd yn ymweld â henebion cofrestredig a'u perchennogion o bryd i'w gilydd i weld cyflwr y safle a chynnig cyngor ar reoli'r heneb. Byddwn yn cysylltu â chi cyn ymweld.



Mae'n bwysig bod perchennogion yn gwarchod eu henebion cofrestredig er budd pobl heddiw ac yfory. Gyda gofal, mae modd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y presennol ac anghenion ein henebion gwerthfawr. Er enghraifft, mae'r domen neu'r mwnt canoloesol hwn a'r fferm fodern yn cyd-fyw'n hapus ac yn cyfrannu'n gyfartal at hanes y dirwedd a'r cynefin.

© Hawlfraint (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

8. Rheoli Henebion Cofrestredig –

Mae llawer o henebion cofrestredig yn sefydlog ac mae'n bosibl na fydd angen gwneud dim mwy iddynt nag osgoi gweithgareddau a allai achosi difrod. Mae'n bosibl y bydd angen rheoli rhai eraill mewn ffordd fwy rhagweithiol er mwyn arafu neu osgoi effeithiau dirywiad naturiol.

Bydd angen i chi fod yn ofalus nad ydych yn gwneud unrhyw waith a fyddai'n arwain at ddifrod nac yn gwneud unrhyw newidiadau a allai newid yr heneb gofrestrdig neu ei safle heb gydsyniad heneb gofrestrdig. Mae hyn yn cynnwys gwaith a gynllunnir i wella eich heneb gofrestrdig.

Gallai'r gwaith gynnwys y canlynol:

- unrhyw beth sy'n arwain at ddymchwel, dinistrio neu ddifrodi unrhyw ran o'r heneb gofrestrdig
- gwaith i gael gwared ar heneb gofrestrdig
- gwaith i atgyweirio heneb gofrestrdig
- addasiadau i heneb gofrestrdig
- gwaith i osod arwyddion, gan gynnwys paneli dehongli
- gwaith chwilio am fetel
- gweithrediadau llifogydd/draenio
- gweithrediadau tipio
- plannu coed

- gweithrediadau coedwigaeth
- codi ffensys
- atgyweirio draeniau
- cloddiadau archaeolegol
- datblygu ar heneb gofrestrdig
- aredig yr isbridd.

Mae'n hawdd difrodi henebion cofrestredig ar ddamwain. Os nad ydych yn siŵr a oes angen cydsyniad amoch ar gyfer unrhyw waith a gynllunnir, cysylltwch â ni i gael cyngor.

Ni fydd angen i chi wneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig ar gyfer rhai mathau o waith. Y rheswm am hyn yw am fod cydsyniad yn cael ei roi'n awtomatig o dan yr hyn a elwir yn gydsyniadau dosbarth. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cwmpasu gan gydsyniadau dosbarth wedi'u diffinio'n llym ac yn fanwl iawn. Maent yn cynnwys parhau i gynnal gweithgareddau amaethyddol neu arddwriaethol presennol. Er enghraifft, os yw safle wedi'i aredig yn ystod y chwe blynedd blaenorol, ni fydd angen cydsyniad heneb gofrestrdig amoch fel arfer er mwyn parhau i aredig, ar yr amod na fydd y tir yn cael ei aredig yn ddyfnach nag a wnaed yn flaenorol. Fel arall, bydd angen i chi gael ein cydsyniad cyn gallu gwneud gwaith aredig.



Mae angen pwysu a mesur yn ofalus iawn cyn dechrau ar unrhyw waith a allai effeithio ar eich heneb gofrestrdig. Mae lluniau o'r tyddyn amffosog canoloesol hwn cyn ac ar ôl gwaith aredig yn dangos pa mor hawdd yw hi i ddifrodi neu ddifetha safle am byth, yn enwedig gwrthgloddiau bregus.

© Hawffraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Os ydych yn cynllunio unrhyw waith rydych o'r farn y bydd yn cael ei ganiatáu gan gydsyniad dosbarth, gofynnwch i ni am gyngor cyn dechrau ar y gwaith.

Cewch ragor o wybodaeth am gydsyniadau dosbarth ar ein gwefan www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/caniatad-heneb-gofrestredig#section-beth-yw-cydsyniad-heneb-gofrestredig

Mae'n drosedd gwneud unrhyw waith, neu ganiatáu i unrhyw waith gael ei wneud, a fyddai'n difrodi neu'n dinistrio heneb gofrestredig neu gydsyniad heneb gofrestredig. Mae gennym amrywiaeth o bwerau i fynd i'r afael â gwaith diawdurdod, gan gynnwys hysbysiadau stop dros dro a hysbysiadau gorfodi henebion cofrestredig. Byddwn yn ymchwilio i bob achos o ddifrod posibl a, lle y bo'n briodol, yn rhoi gwybod i'r heddlu amdanynt. Gall euogfarn arwain at ddirwy neu ddedfryd o garchar.

Bydd unrhyw gynllun rheoli tir cynaliadwy y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol iddo fel arfer yn cynnwys amodau pendant sy'n cyfyngu ar waith a gweithgareddau ar heneb gofrestredig. Os byddwch yn cymryd rhan mewn cynllun o'r fath, mae'n werth nodi y gallech gael cosb ariannol ddifrifol os byddwch yn torri amodau'r cynllun.

Cadw yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer pob cais am gydsyniad heneb gofrestredig. Cewch ragor

o wybodaeth am gydsyniad heneb gofrestredig ar ein gwefan www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/caniatad-heneb-gofrestredig#section-beth-yw-cydsyniad-heneb-gofrestredig

Gwaith i Chwilio am Fetel

Mae'n drosedd defnyddio datgelydd metel ar heneb gofrestredig heb gael ein caniatâd ymlaen llaw. Fodd bynnag, yn gyffredinol, byddwn ond yn rhoi cydsyniad i ddefnyddio datgelydd metel yn ystod cloddiadau archaeolegol ffurfiol, â chydsyniad.

Rhaid i bobl ofyn am ganiatâd y tirfeddiannwr cyn defnyddio datgelydd metel ar ei dir, a dylent osgoi safleoedd a ddiogelir yn gyfreithiol, gan gynnwys henebion cofrestredig. Os bydd rhywun yn gofyn i chi am ganiatâd i ddefnyddio datgelydd metel ar eich heneb gofrestredig, dylech ddweud wrthynt fod y safle wedi'i gofrestru a bod yn rhaid iddynt geisio ein cydsyniad ni. Os byddwch yn dod o hyd i rywun yn defnyddio datgelydd metel ar eich heneb gofrestredig heb eich caniatâd, dylech gysylltu â ni a'r heddlu.

Cewch ragor o wybodaeth am y Cod Ymarfer ar gyfer Chwilio am fetel yn Gyfrifol yng Nghymru a Lloegr ar wefan y Cynllun Henebion Cludadwy www.finds.org.uk/getinvolved/guides/codeofpractice

Bydd angen cydsyniad heneb gofrestredig ar lawer o weithgareddau sy'n cynnwys tarfu'n ffisegol ar heneb gofrestredig. Mae hyn yn cynnwys cloddio archaeolegol. Hyd yn oed os daw gwybodaeth newydd a chyffrous am yr heneb i'r fei, a sut cafodd ei defnyddio yn y gorffennol, mae'r union broses gloddio yn golygu bod creiriau wedi'u difrodi am byth. Mae hyn yn golygu ein bod ni'n craffu'n ofalus ar y diben a'r rheswm dros gloddio, cyn rhoi cydsyniad.

© Adam Stanford



9. Grantiau –

Weithiau gallwn gynnig grantiau i helpu gyda gwaith atgyweirio. Mae'r manylion wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. www.cadw.llyw.cymru/cy-advice-support/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/grant-henebion-a-chytundeb-rheoli-heneb

Gall cynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gefnogi'r diwydiant amaethyddiaeth a rheoli cynaliadwy, megis Trawsgydymffurfio, Mesurau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) a Glastir, helpu perchnogion i wella cyflwr eu

henebion cofrestredig hefyd.

www.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig

Cyhoeddir canllaw ar-lein am ddim, a gaiff ei ddiweddu'n rheolaidd, ar ffynonellau ariannu ar gyfer adeiladau hanesyddol, tirweddau, parciau a gerddi, mynwentydd, treftadaeth ddiwydiannol, archifau, eglwysi hanesyddol, amgueddfeydd, archaeoleg, yr amgylchedd, sgiliau treftadaeth a chadwraeth ar wefan y Cyfeirlyfr Ariannu Treftadaeth.

www.heritagefundingdirectoryuk.org/



Weithiau, mae arian tuag at brosiectau clirio a thrwsio henebion cofrestredig ar gael gan Cadw neu trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Diolch i waith clirio syml, mae'r beddrod siambr Neolithig hwn wedi'i adfer i'w hen ogoniant.

© Hawffraint y Goron (2019), Cadw, Llywodraeth Cymru

Rhagor o Wybodaeth –

Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cynllunio

Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents

Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh

Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru, 2017 www.llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

Llawlyfr Rheoli Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/llawlyfr-rheoli-datblygu

Canllawiau Arfer Gorau

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2011 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/egwyddorion-cadwraeth/egwyddorion-cadwraeth

Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cy-placemaking/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth/asesiadau-or-effaith-ar

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/rheoli-newid-i-adeiladau-rhestredig

Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/parciau-a-gerddi-hanesyddol-cofrestredig/rheoli-parciau-a

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/ardaloedd-cadwraeth/rheoli-ardaloedd-cadwraeth

Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/adeiladau-rhestredig/adeiladau-rhestredig-sydd-mewn-perygl#section-rheoli-adeiladau-rhestredig-sydd-mewn-perygl

Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/asedau-hanesyddol/asedau-hanesyddol-eraill/asedau-hanesyddol-o-ddiddordeb-lleol

Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2018 www.cadw.llyw.cymru/cy-advice-support/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/canllawiau-arfer-gorau#section-gofalu-am-dreftadeath-yr-arfordir

Gwireddu Potensial Trafodaethau cyn Gwneud Ceisiadau Cynllunio, Canllaw Arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012 www.llyw.cymru/caniatad-cynllunio-trafodaethau-cyn-cyflwyno-cais

Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/creu-lleoedd/asesiadau-or-effaith-ar-dreftadaeth/lleoliad-asedau-hanesyddol

Cadwraeth a Rheoli

Mae Cadw wedi cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau ar ofalu am wahanol fathau o henebion, eu gwarchod a'u haddasu. Mae'r rhain ar gael ar-lein yn: www.cadw.llyw.cymru/cy-advice-support/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/canllawiau-arfer-gorau#section-gofalu-am-dreftadeath-yr-arfordir

Gwybodaeth Hanesyddol

Efallai y bydd y ffynonellau canlynol yn ddefnyddiol os byddwch yn chwilio am ragor o wybodaeth am heneb gofrestrredig.

Archifau Cymru — catalog ar-lein sy'n eich galluogi i chwilio am wybodaeth mewn mwy na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol a ddelir gan 21 o archifau yng Nghymru. www.archifau.cymru/

Archwilio — mae'n galluogi'r cyhoedd i weld y cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff Archwilio

ei gynnal a'i ategu â rhagor o wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html

Coflein — y catalog ar-lein ar gyfer Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

www.coflein.gov.uk/cy/

Cof Cymru — Cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau a warchodir, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Ychwanegir parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig at Cof Cymru yn ystod 2019.

www.cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru

Cynefin — adnodd ar-lein i chwilio mapiau degwm Cymru a'u mynegeion www.lleoedd.llyfrgell.cymru/

Cymru Hanesyddol — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol

www.cymruhanesyddol.gov.uk

Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru — mae'n cofnodi'r gwahanol ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffig, cymunedau, prif ffyrdd, strwythurau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodir mewn ffynonellau sy'n rhagddyddio'r Rhyfel Byd Cyntaf.

www.enwaulleoedddhanesyddol.cbhc.gov.uk/

Rhestr o Feysydd Brwydro Hanesyddol yng

Nghymru — adnodd deongliadol ac ymchwil yw hwn.

Mae dros 700 o feysydd brwydro yn y rhestr hon a bydd y rhestr yn cael ei diweddarau a'i diwygio wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei.

www.meysyddbrwydro.cbhc.gov.uk/

Llyfrgell Genedlaethol Cymru www.llgc.org.uk

Grantiau

Efallai y bydd y ffynonellau canlynol yn ddefnyddiol os byddwch yn chwilio am ragor o wybodaeth am grantiau.

Cadw

www.cadw.llyw.cymru/cy-advice-support/asedau-hanesyddol/henebion-cofrestredig/grant-henebion-a-chytundeb-rheoli-heneb

Taliadau Gwledig Llywodraeth Cymru

www.llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig

Heritage Funding Directory

www.heritagefundingdirectoryuk.org/

Cysylltiadau ⇐

Cadw, Llywodraeth Cymru

Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Ffôn: 03000 256000
cadw@llyw.cymru
www.llyw.cymru/cadw

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BU
Ffôn: 01970 621200
nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.cbhc.gov.uk/

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru

nmr.wales@rcahmw.gov.uk
www.coflein.gov.uk/cy/

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3866
wales@pins.gsi.gov.uk
www.llyw.cymru/yr-arolygiaeth-gynllunio

Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gellir cysylltu â swyddogion cadwraeth a chynllunio awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
41 Stryd Lydan
Y Trallwng
SY21 7RR
Ffôn: 01938 553670
trust@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk/cy/

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Comer House
6 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
SA19 6AE
Ffôn: 01558 823121
info@dyfedarchaeology.org.uk
www.dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent

Tŷ Heathfield
Heathfield
Abertawe
SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
enquiries@ggat.org.uk
www.ggat.org.uk/index_cym.html

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
gat@heneb.co.uk
www.heneb.co.uk

Dolenni o'r ddogfen hon ⇐

Os yw'r ddogfen hon yn cynnwys dolenni i safleoedd ac adnoddau eraill a ddarperir gan drydydd partion, darperir y dolenni hyn er gwybodaeth i chi yn unig. Ni ddylid cymryd bod dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Nid oes gan Cadw reolaeth dros gynnwys nac argaeledd tudalennau â dolenni ac nid yw'n derbyn cyfrifoldeb amdanynt hwy nac am unrhyw golled neu ddifrod a all godi os gwnewch eu defnyddio.